

**RHAGOROL O'R TAP**  
**WONDERFUL ON TAP**



**PARATOI CYNLLUN YR IAITH GYMRAEG O  
DAN DDEDDF IAITH GYMRAEG 1993**

Fel a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg  
o dan Adran 14 (1) y Ddeddf ar 29/01/2010. Mae'r cynllun hwn yn disodli'r cynllun a  
gymeradwywyd gan y Bwrdd ar 10 Mehefin 2005.



Mae Hafren Dyfrdwy wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd Hafren Dyfrdwy yn dod â'r egwyddor honno i rym wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

## **CYNNWYS Y CYNLLUN**

### **1 RHAGYMDRODD**

- 1.1 Hafren Dyfrdwy
- 1.2 Nodau ac Amcanion

### **2. CYNLLUNIO A CHYFLAWNI GWASANAETHAU**

- 2.1 Polisiâu a mentrau newydd
- 2.2 Cyflawni gwasanaethau
- 2.3 Safon y gwasanaeth Cymraeg
- 2.4 Diffiniad
- 2.5 Y Cynllun

### **3. DELIO Â'R CYHOEDD CYMRAEG EU HIAITH**

- 3.1 Gohebiaeth ysgrifenedig
- 3.2 Cyfathrebu ar y ffôn
- 3.3 Cyfarfodydd cyhoeddus
- 3.4 Cyfarfodydd eraill

### **4. WYNEB CYHOEDDUS Y CWMNI**

- 4.1 Hunaniaeth gorfforaethol
- 4.2 Arwyddion
- 4.3 Cyhoeddi ac argraffu deunydd i'w ddsbarthu
- 4.4 Gwefannau
- 4.5 Datganiadau i'r wasg
- 4.6 Hysbysebu a chyhoeddusrwydd
- 4.7 Hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus
- 4.8 Hysbysebu i recriwtio staff

### **5. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN**

- 5.1 Staffio
- 5.2 Dysgu Cymraeg
- 5.3 Recriwtio
- 5.4 Hyfforddiant galwedigaethol
- 5.5 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- 5.6 Trefniadau gweinyddol
- 5.7 Gwasanaethau ar ran y Cwmni gan bartïon eraill
- 5.8 Monitro
- 5.9 Adolygu a diwygio'r Cynllun
- 5.10 Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau
- 5.11 Cyhoeddi gwybodaeth

### **6. CYHOEDDUSRWYDD**

**Atodiad A – Prif dargedau ar gyfer cyflawni'r cynllun**

## 1. RHAGYMDRODD

### 1.1 Hafren Dyfrdwy

Mae Hafren Dyfrdwy yn rhan o Hafren Trent Ccc, a hynny ar ôl caffael Dŵr Dyffryn Dyfrdwy ar y 15<sup>fed</sup> o Chwefror, 2017. Gwasanaethwn chwarter miliwn o bobl yng nghalon Cymru, o Wrecsam ar Afon Dyfrdwy i'r Drenwydd a tharddiad Afon Hafren ger Machynlleth.

Gallwch weld mapiau o'n rhanbarth ar ein gwefan.

Nod Hafren Dyfrdwy yw cyflawni safon gwasanaeth sydd yr un mor uchel i'w cwsmeriaid drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

### 1.2 Nodau ac Amcanion

1.2.1 Yn eu hymwneud â'r cyhoedd ac wrth weithredu'r broses ddemocrataidd, fe fydd y Cwmni'n trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb. Bydd y ddwy iaith yn meddu ar yr un statws a dilysrwydd.

1.2.2 Bydd Hafren Dyfrdwy:

- yn cynnig yr hawl i'r cyhoedd yng Nghymru ddewis pa iaith i'w defnyddio yn eu hymwneud â'r sefydliad;
- yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi'u barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith;
- yn cydnabod bod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'u dewis iaith yn fater o ymarfer da, nid consesiwn;
- yn cydnabod y gallai gwarafun iddynt yr hawl i ddefnyddio'u dewis iaith roi aelodau'r cyhoedd dan anfantais wirioneddol.

## 2. CYNLLUNIO A CHYFLAWNI GWASANAETHAU

### 2.1 Polisiâu a Mentrau Newydd

2.1.1 Bydd unrhyw gynlluniau, mentrau neu bolisiau newydd a ffurfir gan y Cwmni yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun hwn. Cyfeirir at y Cynllun hwn, lle y bo'n berthnasol, yng nghynlluniau, mentrau a pholisiâu'r Cwmni. Bydd y Cwmni'n gwneud asesiad o ganlyniadau ieithyddol tebygol unrhyw bolisi neu fenter newydd wrth baratoi a monitro'r fenter bolisi honno.

2.1.2 Bydd y Cwmni'n ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn ag unrhyw bolisiau neu fentrau arfaethedig fyddai'n effeithio ar Gynllun Iaith Gymraeg y Cwmni neu ar gynllun sefydliad arall. Ni newidir y Cynllun heb gytundeb y Bwrdd.

2.1.3 Bydd cyflwyno polisiâu a mentrau newydd yn galluogi'r Cwmni i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn ei wasanaethau ac i wneud cynnydd tuag at gyflawni amcanion y Cynllun hwn. Bydd y Cwmni'n

dilyn yr amcanion hyn ar bob cyfle i helpu i weithredu egwyddor cydraddoldeb.

- 2.1.4 Caiff y mesurau a ddisgrifir yn y Cynllun eu cymhwyso i bolisiau a mentrau newydd. Gwneir aelodau'r staff ac eraill sy'n gysylltiedig â'u llunio a'u gweithredu yn ymwybodol o'r Cynllun ac o ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg.
- 2.1.5 Paratoir canllawiau a chyfarwyddiadau ar gyfer yr holl staff sy'n gyfrifol am bolisiau a mentrau newydd.
- 2.1.6 Caiff y Cynllun hwn ei fonitro gan Banel Iaith Gymraeg y Cwmni o dan Gadeiryddiaeth Uwch-reolwr.

## 2.2 **Cyflawni Gwasanaethau**

- 2.2.1 Nod y Cwmni yw darparu gwasanaeth cyson a dibynadwy ar gyfer siaradwyr Cymraeg ledled pob adran a maes gwasanaeth. Yn y meysydd hynny sydd gan y Cwmni lle mae'r gofyn am wasanaeth yn Gymraeg yn debygol o fod yn anfynych, fe wna'r Cwmni drefnu i gwsmeriaid gael defnyddio gwasanaeth yn Gymraeg pan fo angen.
- 2.2.2 Er efallai na fydd hi'n ymarferol gallu rhoi pob gwasanaeth ar gael yn llwyr yn Gymraeg, yn enwedig rhai gwasanaethau arbenigol a thechnegol, y bwriad yw darparu gwasanaeth sydd mor gynhwysfawr â phosibl, ac fe wneir pob ymdrech i orchfygu unrhyw anawsterau sy'n codi. Caiff swyddogion nad ydynt yn siarad Cymraeg wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael a sut y gellir cael atynt. Gwneir pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r Cynllun, yr ymrwymadau a gynhwysir ynddo, a'r systemau, y gweithdrefnau a'r gwasanaethau sydd ar waith i ddiwallu'r ymrwymadau hynny.

## 2.3 **Safon y Gwasanaeth yn Gymraeg**

- 2.3.1 Mae gan bob aelod o'r cyhoedd hawl i gyfathrebu â'r Cwmni yn yr iaith o'u dewis, naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- 2.3.2 Mae'r Cwmni'n croesawu gweithrediadau yn Gymraeg neu yn Saesneg, a'i nod yw darparu safon gwasanaeth sydd yr un mor effeithiol yn y ddwy iaith. Caiff yr egwyddor o ddarparu gwasanaeth yr un mor uchel yn y ddwy iaith ei datgan mewn dogfennau allweddol, megis cynlluniau busnes a dogfennau polisi.
- 2.3.3 Nod y Cwmni yw darparu safon uchel o wasanaeth ym mhob agwedd o waith y Cwmni, yn unol ag ymrwymadau'r Cynllun hwn. Mae safonau gwasanaeth yn ddarostyngedig i adolygiadau rheolaidd, ac fe fydd y Cynllun Safonau Gwarantiedig yr un mor berthnasol i'r ddarpariaeth o wasanaethau yn y Gymraeg ag yn y Saesneg.

## 2.4 **Diffiniad**

2.4.1 Yng nghyd-destun y ddogfen bolisi hon, Cymraeg a Saesneg yw'r ddwy iaith a olygir gan y gair "dwyieithog".

## 2.5 Y Cynllun

2.5.1 Dylai rhywun sy'n dymuno cysylltu â'r Cwmni ynglŷn â'r Cynllun hwn gysylltu â:

Anfonwch e-bost atom ([customercare@hdcymru.co.uk](mailto:customercare@hdcymru.co.uk)) neu os yw'n amgenach gennych, ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad a ganlyn:

Hafren Dyfrdwy  
PO Box 507  
Darlington  
DL1 9XF

## 3. DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

### 3.1 Gohebiaeth Ysgrifenedig

3.1.1 Mae croeso i'r cyhoedd ddelio â'r Cwmni yn ysgrifenedig naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Atebir a llofnodir gohebiaeth gan y Cwmni yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol ac yn unol â'n Cynllun Safonau Gwarantedig.

3.1.2 Os yw'r Cwmni'n ymwybodol bod yn amgenach gan unigolyn, grŵp neu sefydliad dderbyn llythyrau yn Gymraeg, yna defnyddir yr iaith honno mewn llythyrau a ddechreuir gan y Cwmni. Bydd y Cwmni'n gwneud trefniadau i greu cronfa ddata o bobl a sefydliadau y mae'n amgenach ganddynt ohebu neu ddelio yn Gymraeg.

3.1.3 Ar ôl cyfweiliad wyneb yn wyneb neu alwad ffôn a gynhaliwyd yn Gymraeg, fe gaiff unrhyw ohebiaeth sydd ei hangen ei hysgrifennu yn Gymraeg, oni bai bod yr aelod o'r cyhoedd wedi dynodi fel arall.

3.1.4 Bydd unrhyw gylchlythyr neu lythyr neu ohebiaeth arferol a anfonir at y cyhoedd yn ddwyieithog oni bai bod dewis ieithyddol y derbynnydd yn hysbys inni.

3.1.5 Rhoddir canllawiau i staff ynglŷn â sut i fodloni ymrwymadau'r Cwmni o ran gohebiaeth yn y Gymraeg, yn cynnwys manylion gwasanaethau cyfieithu o fewn ac oddi allan i'r sefydliad.

3.1.6 Panel iaith Gymraeg y Cwmni fydd yn gyfrifol am sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r trefniadau hyn ac am hysbysu staff nad ydynt yn siarad Cymraeg am y cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer gohebu yn Gymraeg.

### 3.2 Cyfathrebu ar y Ffôn

- 3.2.1 Mae croeso i bobl siarad Cymraeg a Saesneg wrth ddelio â'r Cwmni ar y ffôn.
- 3.2.2 Bydd y cyfarchiad cychwynol gan y switsfwrdd yn ddwyieithog.
- 3.2.3 Os yw galwr yn dymuno siarad Cymraeg, fe wna'r cysylltydd drosglwyddo'r alwad i swyddog Cymraeg ei iaith yn yr adran briodol neu i aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg a all helpu i gysylltu â'r person cywir i ateb yr ymholiad.
- 3.2.4 Os yw galwr yn siarad Cymraeg ac mae'r aelod o'r staff sy'n ateb yn methu â siarad Cymraeg, fe ddylai'r aelod o'r staff egluro nad yw ef/hi yn gallu siarad Cymraeg a gofyn a yw'r galwr yn dymuno siarad â siaradwr Cymraeg. Os yw'r galwr yn dymuno gwneud hynny, fe ddylid trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg sy'n gallu ymdrin â'r mater neu, os nad oes neb ar gael, fe ddylid hysbysu'r galwr y bydd y siaradwr Cymraeg yn dychwelyd yr alwad cyn gynted â phosibl.
- 3.2.5 Rhoddir canllawiau i staff ynglŷn â sut i drin a thrafod galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg, yn cynnwys manylion swyddogion sy'n gallu ymdrin â galwadau yn Gymraeg.
- 3.2.6 Lle y bo'n berthnasol, fe fydd negeseuon ar beiriannau ateb ffôn yn ddwyieithog.

### 3.3. **Cyfarfodydd Cyhoeddus**

- 3.3.1 Byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu gyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus oni bai ein bod yn gwybod bod pawb sy'n cymryd rhan yn debygol o ddefnyddio'r un iaith.
- 3.3.2 Bydd gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog, a naill ai'n nodi y bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael neu'n gwahodd y cyhoedd i adael inni wybod o flaen llaw ym mha iaith y dymunant siarad.
- 3.3.3 Gwnawn adael i'r rheiny sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus wybod pan fo cyfleusterau cyfieithu ar gael – gan annog cyfraniadau yn Gymraeg.
- 3.3.4 Wrth ddethol staff i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus, fe wnawn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg â chymwysterau addas yn mynychu, fel y bo'n angenrheidiol.

### 3.4 **Cyfarfodydd Eraill**

- 3.4.1 Mae croeso i gwsmeriaid sy'n ymweld â swyddfeydd y Cwmni drafod eu busnes yn Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny, ac fe wna'r Cwmni bob ymdrech i sicrhau bod yna weithiwr Cymraeg ei iaith yn bresennol i ymdrin ag ymholiadau yn Gymraeg. Os yw'r ymholiad yn ymwneud â mater na all y gweithiwr sy'n bresennol ymdrin ag ef, fe wneir pob ymdrech i ganfod gweithiwr priodol, naill

ai'n bersonol neu drwy gysylltiad ar y ffôn. Os na ellir gwneud hyn, fe roddir y cyfle i'r cwsmer drafod y mater yn Saesneg neu fel arall, fe gaiff ymholiad y cwsmer ei nodi a'i drosglwyddo i weithiwr priodol fel y caiff ymateb ysgrifenedig wedi'i gyfieithu i'r Gymraeg ei anfon at y cwsmer.

- 3.4.2 Ar adegau pan wneir apwyntiad i ymweld â chwsmer gartref neu mewn rhyw leoliad arall i ffwrdd o sefydliad y Cwmni, ac mae'r cwsmer yn dymuno cynnal yr ymweliad yn Gymraeg, fe ddefnyddir gweithiwr Cymraeg ei iaith, lle bynnag y bo'n ymarferol. Lle nad yw'r gwasanaeth hwn ar gael, fe drefnir cysylltu ag aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg ar y ffôn.
- 3.4.3 Os daw aelod o'r staff nad yw'n siarad Cymraeg i gysylltiad ag aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno siarad Cymraeg, fe ddylent egluro ei fod ef/hi yn methu â siarad Cymraeg a chanfod yn ddi-oed aelod ddwyieithog o'r staff i ymdrin â'r mater. Mewn achosion o'r fath, lle mae'r aelod o'r staff yn ddysgwr, fe anogir yr aelod o'r staff i ddefnyddio ac i ymarfer ei Gymraeg/Chymraeg.

#### 4. WYNEB CYHOEDDUS Y CWMNI

##### 4.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

- 4.1.1 Bydd delwedd gyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol y Cwmni yn gyfan gwbl ddwyieithog.
- 4.1.2 Caiff hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog y Cwmni ei defnyddio ar ei benawdau llythyrau, slipiau cyfarch, taflenni gwybodaeth, cardiau busnes, arddangosfeydd, a chyhoeddiadau a cherbydau.
- 4.1.3 Rhoddir canllawiau ynglŷn â defnyddio'r hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog i staff, dylunwyr ac eraill sy'n atgynhyrchu delwedd gyhoeddus y Cwmni.

##### 4.2 Arwyddion

- 4.2.1 Bydd yr holl arwyddion mewnol ac allanol sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog, gyda maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd yr ysgrifen yn parhau egwyddor cydraddoldeb.
- 4.2.2 Bydd arwyddion eraill a ddefnyddir gan y Cwmni neu gontractwyr, megis arwyddion y ffordd fawr ac arwyddion gwybodaeth i'r cyhoedd, yn ddwyieithog.
- 4.2.3 Pan fo'r Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd ar arwyddion, fe fydd ganddynt statws cyfartal o ran ffurf, ac fe fydd y Gymraeg naill ai uwchben y Saesneg, neu os yw'r ddwy iaith ochr yn ochr, bydd y Gymraeg ar y chwith. Os bydd yn rhaid eu darparu ar wahân, fe fydd ganddynt statws cyfartal o ran ffurf, maint ac ansawdd, ac fe fydd yr arwydd Cymraeg naill ai uwchben yr arwydd Saesneg neu os ydynt yn gyfochrog, ar y chwith. Ym mhob achos, fe



fydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

4.2.4 Bydd pob arwydd newydd neu arwydd amnewid a godir gan y Cwmni er gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog, gyda maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd yr ysgrifennu yn parchu egwyddor cydraddoldeb.

4.2.5 Bydd datganiadau cyhoeddus yn yr ardal y mae'r Cwmni'n gyfrifol amdani yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn ddwyieithog.

### 4.3 **Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd i'w Ddosbarthu**

4.3.1 Pan fo'r Cwmni'n argraffu ac yn cyhoeddi deunydd ar gyfer y cyhoedd, ei drefn arferol fydd gwneud hynny'n ddwyieithog.

4.3.2 Mae dogfennau a gyhoeddir yn ddwyieithog yn cynnwys y rheiny a roddir neu a roddir ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol ac sy'n:

- darparu gwybodaeth am weithgareddau/gwasanaethau'r Cwmni;
- rhoi gwybodaeth benodol am agweddau o wasanaethau a/neu waith a ddarperir ar gyfer y cyhoedd.

4.3.3 Ar gyfer dogfennau ymgynghori a gyfeirir at rannau neu grwpiau neilltuoel o'r cyhoedd, p'un a yw cyhoeddiad yn ddwyieithog neu mewn un iaith, fe fydd y Gymraeg neu'r Saesneg yn cael ei phennu gan natur y deunydd a'r gynulleidfa a dargedir.

4.3.4 Mae cyhoeddiadau i'w cyhoeddi'n ddwyieithog yn cynnwys pamffledi, llyfrynau, cylchlythyrau, yn ogystal ag eitemau wedi'u hargraffu, megis biliau, cardiau apwyntiadau, ac yn y blaen. Petai'n profi'n anymarferol cynhyrchu fersiwn ddwyieithog lawn, fe fydd gan eitemau gynnwys dwyieithog priodol, e.e., crynodeb dwyieithog a/neu fanylion sut i gael fersiwn Gymraeg neu Saesneg.

4.3.5 Wrth bennu pa ddogfennau a gynhyrchir yn ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, fe fydd y Cwmni'n ystyried materion megis maint a natur y gynulleidfa a dargedir, maint a natur y ddogfen a pha mor eang y caiff ei dosbarthu, cost, amseru, y galw tebygol, gwerth am arian a materion eraill.

4.3.6 Lle bynnag y bo'n bosibl, fe gynhyrchir cyhoeddiadau gyda fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen, naill ai gefn wrth gefn neu ochr yn ochr.

4.3.7 Lle nad yw hyn yn bosibl neu'n briodol, fe fydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yn cael eu cyhoeddi. Mewn achosion o'r fath, fe fydd y ddwy fersiwn o'r un safon, wedi'u cyhoeddi ar yr un pryd, yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd ac fe fyddant yr un mor hygyrch, ac fe fydd arnynt neges yn datgan bod yna fersiwn Gymraeg/Saesneg hefyd ar gael.

- 4.3.8 Mae'r Cwmni'n cadw'r hawl i gynhyrchu deunydd mewn fersiwn un iaith yn unig mewn perthynas ag eitemau a gynhyrchir ar gyfer cynulleidfa arbenigol neu eitemau o naws wyddonol neu dechnegol gymhleth.
- 4.3.9 Caiff canllawiau ynglŷn â'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chyhoeddiadau dwyieithog eu paratoi ar gyfer staff, dylunwyr allanol a chyhoeddwyr. Bydd hyn yn cynnwys cadarnhad o'r mathau a'r categorïau o gyhoeddiadau fydd bob amser yn ddwyieithog, y gellir eu cyhoeddi mewn fersiynau ar wahân a'r cyhoeddiadau hynny fydd yn fater ar gyfer ystyriaeth, ynghyd â chynghor ar osodiad a dyluniad dogfennau dwyieithog.

#### 4.4 **Gwefannau**

- 4.4.1. Bydd ein gwefannau'n cynnwys tudalennau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddwn yn darparu fersiynau Cymraeg o'r tudalennau rhyngweithiol ar ein gwefannau.
- 4.4.2 Byddwn yn paratoi rhaglen y bydd angen cytuno arni â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn amlinellu sut y byddwn yn cynyddu cynnwys Cymraeg ein gwefan dros amser.
- 4.4.3 Wrth ddylunio gwefannau newydd neu ailddatblygu'n gwefannau presennol, fe roddwn ystyriaeth i *Ganllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac unrhyw ganllaw arall a gyhoeddir gan y Bwrdd parthed datblygu gwefannau.
- 4.4.4 Pa bryd bynnag y postiwn gyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefannau, fe gaiff fersiynau Cymraeg eu postio ar yr un pryd, os byddant ar gael.

#### 4.5 **Datganiadau i'r Wasg**

- 4.5.1 Caiff datganiadau i'r wasg ac i'r cyfryngau yng Nghymru eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Fodd bynnag, mewn achosion brys, efallai y bydd hi'n angenrheidiol cyhoeddi datganiadau yn Saesneg yn unig cyn y bydd y fersiwn Gymraeg ar gael. Mewn achosion o'r fath, fe gyhoeddir fersiwn Gymraeg i'r cyfryngau Cymraeg eu hiaith ar y cyfle cyntaf.
- 4.5.2 Caiff datganiadau i'r wasg Gymraeg eu cyhoeddi yn Gymraeg.

#### 4.6 **Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd**

- 4.6.1 Lle mae'r Cwmni'n rhoi cyhoeddusrwydd i'w wasanaethau a'i weithgareddau yng Nghymru drwy ddulliau arddangosfeydd, arddangosiadau, hysbysfyrddau a chynrychioliadau, fe fydd yn gwneud hynny'n ddwyieithog. Pan gynhelir y gweithgareddau hyn gan y Cwmni neu yn ei enw, fe fydd y deunydd a arddangosir ac unrhyw ddeunydd ategol megis hysbysebion, poster, llenyddiaeth gyhoeddusrwydd a thapiau fideo yn gyfan gwbl ddwyieithog. Gall arddangosfeydd, fodd bynnag, gynnwys eitemau llenyddiaeth nad

dynt ar gael yn Gymraeg neu nad ydynt eto wedi'u cynhyrchu'n ddwyieithog neu yn Gymraeg.

- 4.6.2 Bydd arolygon neu ymchwil marchnata a gynhelir yng Nghymru fel arfer yn ddwyieithog, yn cynnwys deunydd ar gyfer ymholiadau ac ymatebion. Wrth bennu p'un a ddylai arolygon lleol fod yn ddwyieithog, fe wna'r Cwmni ystyried materion megis natur y gynulleidfa a dargedir, y gymuned a gwmpasir a'r pwnc dan sylw.
- 4.6.3 Gwneir staff ac eraill sy'n gysylltiedig â chynllunio, dylunio a chynnal ymgyrchoedd hysbysebu, cyhoeddusrwydd neu ymchwil marchnata yn ymwybodol o ofynion y Cynllun ac fe roddir canllawiau iddynt ynglŷn â'i weithredu.

#### 4.7 **Hysbysiadau Swyddogol a Chyhoeddus**

- 4.7.1 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion i recriwtio staff sy'n ymddangos yng Nghymru fel arfer yn ymddangos, gyda fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu dangos gyda'i gilydd ac yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd, boed hynny yn y wasg, ar hysbysfyrddau, hysbysiadau a rhybuddion ar safleoedd neu fel arall. Bydd hysbysiadau a hysbysebion mewn papurau newyddion a chylchgronau Cymraeg fel arfer yn Gymraeg yn unig, ac fe fydd y rheiny a gyhoeddir yn y papurau newyddion a'r cylchgronau mawr yn y Deyrnas Unedig fel arfer yn Saesneg yn unig.
- 4.7.2 Ac eithrio mewn cyhoeddiadau Cymraeg, fe ddylai'r fersiwn Gymraeg fod uwchben y fersiwn Saesneg neu, lle y caiff yr ysgrifeniadau'u dangos gyda'i gilydd, fe fydd y fersiwn Gymraeg ar yr ochr chwith, ac fe fyddant yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd, boed nhw "yn y wasg", ar hysbysfyrddau neu fel arall.
- 4.7.3 Bydd hysbysiadau cyhoeddus swyddogol y Cwmni yn gyfan gwbl ddwyieithog mewn fformat cyfochrog, gyda'r ysgrifen Gymraeg ar y chwith. Lle y bo hyn yn anymarferol, fe fydd y naill ysgrifen uwchben y llall, gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Fodd bynnag, ym mhob achos, fe ddylai'r ysgrifen fod yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd, p'un ai yn y wasg, ar hysbysfyrddau ac ar safleoedd neu mewn manau eraill.

#### 4.8 **Hysbysebu i Recriwtio Staff**

- 4.8.1 Bydd pob hysbyseb i recriwtio staff a gyhoeddir gan y Cwmni yn ddwyieithog, ac eithrio:
  - (a) bydd hysbysebion a gyhoeddir mewn cylchgronau a phapurau newyddion Cymraeg yn y Gymraeg yn unig.
  - (b) dylai hysbysebion a gyhoeddir mewn cylchgronau a phapurau newyddion Saesneg eu hiaith ar gyfer swyddi lle mae'r iaith

Gymraeg yn gymhwyster hanfodol fod yn Gymraeg gyda nodyn esboniadol byr yn y Saesneg.

- 4.8.2 Bydd pob hysbyseb recriwtio yn ddwyieithog gyda'r ysgrifen Gymraeg ar yr ochr chwith. Lle nad yw hyn yn ymarferol, fe fydd y naill ysgrifen uwchben y llall, gyda'r Gymraeg uchaf. Ym mhob achos, fe fydd yr ysgrifen yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.
- 4.8.3 Caiff canllawiau ynglŷn â gweithredu'r gweithredoedd hyn eu rhoi i staff sy'n gysylltiedig â dylunio a chynhyrchu hysbysebion cyhoeddus swyddogol a hysbysebion recriwtio staff.

## 5. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

### 5.1 Staffio

- 5.1.1 Mae'r Cwmni'n cydnabod yr angen i gyflogi digon o weithwyr Cymraeg eu hiaith a chanddynt y sgiliau priodol fel y gallent weithredu'r Cynllun hwn ac yn neilltuol o ran gweithwyr â chysylltiad rheolaidd â chwsmeriaid.
- 5.1.2 Bydd y Cwmni'n nodi'r manau gweithio a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n fanteisiol, ac fe fydd yn ffurfio disgrifiadau swyddi yn unol â hynny. Gellir diffinio'r gofyniad hwn fel elfen o weithle neu dîm yn hytrach na'i fod ynghlwm wrth swydd neilltuol.
- 5.1.3 Bydd y Cwmni, fel rhan o'i adolygiad o weithrediad y Cynllun, yn monitro nifer y siaradwyr Cymraeg neu'r rheiny sy'n dysgu Cymraeg a'u lleoliad o fewn y sefydliad er mwyn sefydlu a monitro'i adnoddau ieithyddol. Bydd yn cynnal rhestr o'r holl weithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg ac fe fydd yn sicrhau bod hysbysebion swyddi a disgrifiadau o swyddi yn y cyfryngau'n adlewyrchu gofynion y cynllun hwn, fel y bo'n briodol.
- 5.1.4 Mae'r Cwmni'n gyfrifol am ystod eang o wasanaethau a gweithgareddau yn ymwneud â chyflenwi dŵr, y mae llawer ohonynt yn gofyn am sgiliau proffesiynol a thechnegol arbenigol ar gyfer eu gweithrediadau. Ni fydd hi'n ymarferol darparu pob gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe wna'r staff eu gorau i gynorthwyo'r cyhoedd i dderbyn gwasanaeth o ansawdd da. Y nod yw datblygu cyflenwad o staff a all helpu'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg o fewn gwasanaeth integredig.

### 5.2 Dysgu Cymraeg

- 5.2.1 Bydd y Cwmni'n annog ac yn cynorthwyo aelodau'r staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella'u Cymraeg llafar neu ysgrifenedig.
- 5.2.2 Rhoddir blaenoriaeth o ran hyfforddiant i staff sydd yn yr ardal oedd hynny o ddarparu gwasanaethau lle mae yna gysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg neu lle mae yna brinder a nodwyd o staff Cymraeg.
- 5.2.3 Bydd Panel Iaith Gymraeg y Cwmni yn datblygu rhaglen hyfforddi yn yr iaith Gymraeg sy'n diwallu anghenion y Cwmni wrth weithredu'r Cynllun. Bydd hyn hefyd yn ceisio datblygu gallu ymysg y rheiny nad ydynt yn siarad Cymraeg i siarad yr iaith.

### 5.3 Recriwtio

- 5.3.1 Wrth recriwtio staff newydd, fe fydd yna asesiad o ofynion ieithyddol y swydd.

- 5.3.2 Bydd Panel yr Iaith Gymraeg (sy'n cynnwys Rheolwr Adnoddau Dynol y Cwmni) yn archwilio anghenion gwasanaethau ac yn canfod meysydd blaenoriaeth ar gyfer recriwtio siaradwyr Cymraeg er mwyn diwallu gofynion y Cynllun. Wrth wneud hynny, fe fydd y Panel yn ystyried y sefyllfaoedd lle mae recriwtio staff Cymraeg eu hiaith yn hanfodol neu'n fanteisiol er mwyn darparu gwasanaeth mor gyflawn â phosibl. Lle y caiff gallu ieithyddol ei ystyried yn hanfodol neu'n ddymunol, fe ddatganir hyn mewn hysbysebion swyddi.
- 5.3.3 Mewn achos lle mae'r Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer y swydd, fe gaiff y swydd ei hysbysebu felly, gan ddatgan y disgwylir i unrhyw berson a benodir i'r swydd nad yw'n siarad Cymraeg ddysgu'r iaith gyda phob cymorth gan y Cwmni. Bydd hyn yn digwydd o fewn cyfnod rhesymol a drafodwyd ac y cytunwyd arno â deiliad y swydd hyd at safon lle y gall ef/hi siarad yr iaith yn ddigonol dda i gyflawni dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Caiff y cyfnod rhesymol ei adolygu a'i fonitro gan Bennaeth Personél y Cwmni.
- 5.3.4 Yn achos ymgeiswyr am swyddi lle mae sgiliau yn y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gymhwyster hanfodol, os cwyd sefyllfa lle mae dau ymgeisydd yn gydradd o ran cymwysterau ffurfiol, profiad, ac yn y blaen, fe fydd lefel sgiliau dwyieithog yn pennu'r penderfyniad. Yn achos ymgeiswyr am swyddi lle mae'r Gymraeg yn gymhwyster manteisiol lle mae dau ymgeisydd yn gydradd o ran cymwysterau ffurfiol, profiad, ac yn y blaen, fe ystyrir lefel sgiliau dwyieithog fel mantais.

#### 5.4 **Hyfforddiant Galwedigaethol**

- 5.4.1 Bydd Uwch-reolwyr wrth ymgynghori â'r Rheolwr Personél yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol penodol drwy'r Gymraeg i staff sy'n siarad Cymraeg a nodwyd yn eu Hadrannau.
- 5.4.2 Lle y canfyddir angen am hyfforddiant galwedigaethol i hwyluso gweithredu'r cynllun ac y gellir rhoi hyfforddiant addas ar gael, fe'i darperir neu fe'i cefnogir yn ôl gofynion y gwasanaeth.
- 5.4.2 Bydd darpariaeth hyfforddiant yn cynnwys cyrsiau mewn sgiliau neilltuol, cyrsiau cynefino mewn rhai arbenigeddau neilltuol a darparu deunyddiau adnodd a deunyddiau dysgu o bell, lle y bo'n briodol.

#### 5.5 **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**

- 5.5.1 Gofalir am yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn y Gymraeg a'r angen i weithredu yn unol â'r cynllun hwn wrth inni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

5.5.2 Gwnawn addasu'n systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu presennol, lle y bo'n briodol, i sicrhau eu bod yn ein galluogi i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg – ac fe weithredwn yn unol â'r cynllun hwn. Wrth inni ddatblygu neu gaffael systemau TC&G, fe rown ystyriaeth i *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* y Bwrdd.

## 5.6 Trefniadau Gweinyddol

5.6.1 Mae'r Cynllun wedi'i gymeradwyo ac mae ganddo awdurdod llawn Bwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni.

5.6.2 Gan y Rheolwr-Gyfarwyddwr y mae'r cyfrifoldeb terfynol am sicrhau bod y Cynllun yn cael ei weithredu, ac fe fydd yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy sefydlu Panel yr Iaith Gymraeg.

5.6.3 Mae'r Panel yn cynnwys rhai o uwch-reolwyr y Cwmni, yn cynnwys y Rheolwr Personél. Byddant yn cynghori rheolwyr ynglŷn â'r camau sydd eu hangen i weithredu'r Cynllun yn eu hadrannau.

5.6.4 Gwneir pob aelod o'r staff yn ymwybodol o ofynion y Cynllun ac fe roddir canllawiau a chyfarwyddiadau priodol iddynt.

5.6.5 Rhoddir canllawiau i staff ynglŷn â defnyddio gwasanaethau cyfieithu, yn cynnwys yn fewnol a chydag asiantaethau allanol, fel ei gilydd.

## 5.7 Gwasanaethau ar ran y Cwmni gan Bartïon Eraill

5.7.1 Dylai unrhyw gytundeb, trefniant neu gontract newydd a wneir â thrydydd parti i ddarparu gwasanaeth ar ran y Cwmni yng Nghymru gydymffurfio â thelerau'r Cynllun hwn.

5.7.2 Wrth osod unrhyw gontract, fe fydd y Rheolwr perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod yr asiantaeth, y cwmni neu'r corff gwirfoddol sy'n gwneud y gwaith ar ran y Cwmni i'r cyhoedd yn cydymffurfio ac yn gweithredu unrhyw elfennau cysylltiedig o'r Cynllun hwn. Caiff hyn ei gyflawni drwy gynnwys manylion perthnasol gofynion y Cynllun yn y ddogfen dendro neu'r cytundeb lefel y gwasanaeth a anfonwyd at yr asiantaeth, cwmni neu gorff gwirfoddol.

5.7.3 Pan fo'r Cwmni'n comisiynu gwasanaethau i'r cyhoedd, fe fydd yn sicrhau y bydd y darpariaethau'n gyson â thelerau perthnasol y Cynllun hwn.

5.7.4 Caiff canllawiau ysgrifenedig ynglŷn â gweithdrefnau sydd i'w dilyn eu rhoi i staff sy'n gysylltiedig â pharatoi contractau ac sy'n delio â chontractwyr ac asiantiaid.

5.7.5 Wrth ymdrin â'r swyddogaethau hyn, fe wna'r Cwmni annog, galluogi, hwyluso neu gefnogi ceisiadau a sefydliadau a chyrff eraill i ddilyn ymarfer dwyieithog ac i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gweithrediadau. Bydd yn gwneud hyn drwy ddatgan y farn hon mewn unrhyw

ddogfennau cais perthnasol a gyhoeddir sydd i'w defnyddio gan y cyhoedd fydd yn dynodi bod y Cwmni wedi mabwysiadu Cynllun yr Iaith Gymraeg. Bydd yn darparu gwybodaeth i ymgeiswyr ac eraill am unrhyw ffynonellau cynghorion a chymorth sy'n hysbys i'r Cwmni ynglŷn â materion megis arferion dwyieithog.

## 5.8 **Monitro**

5.8.1 Bydd y Cwmni'n monitro mor dda y mae'n bodloni'i ymrwymadau yn y Cynllun hwn. Bydd Cadeirydd Panel Iaith Gymraeg y Cwmni (Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Cwmni) yn adrodd yn chwarterol wrth Fwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni yn y cyfarfodydd rheolaidd gan y rheolwyr.

5.8.2 Cyfrifoldeb Panel Iaith Gymraeg y Cwmni fydd cydgysylltu a gweithredu'r Cynllun ac am ei adolygu a'i ddiwygio. Os gofynnir iddo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, fe wna Cadeirydd y Panel baratoi adroddiad y bydd y Cwmni'n ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

5.8.3 Bydd Panel Iaith Gymraeg y Cwmni'n adolygu:

- Cynllunio a chaffael yn y dyfodol - gan sicrhau bod unrhyw bolisiâu, gweithdrefnau neu gyhoeddiadau a rhaglenni cyfrifiaduron newydd yn gyson â darparu gwasanaeth dwyieithog ar sail cydraddoldeb.
- Trefnu a chyflawni gwasanaethau - monitro gweithredu'r trefniadau a wneir i gyflawni gwasanaethau'r Cwmni yn Gymraeg a'u heffeithiolrwydd; monitro mor dda y mae'r sefydliad yn annog ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg gan bartïon eraill.
- Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg - amseroedd monitro ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg, ansawdd y gwasanaethau cyfieithu a'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd.
- Wyneb cyhoeddus y Cwmni - monitro gweithredu delwedd gyhoeddus y Cwmni a chyflwyno cyhoeddiadau, ffurflenni, arwyddion hysbysiadau a deunyddiau argraffedig eraill dwyieithog.
- Staffio – monitro gweithredu mesurau staffio a hyfforddi a gynhwysir yn y Cynllun.
- Asiantaethau a chontractwyr - gyda'r rheolwr perthnasol yn monitro'r gwaith o ddarparu a gweinyddu gwasanaethau gan asiantiaid a chontractwyr y Cwmni er mwyn sicrhau bod yna gydymffurfio â thelerau iaith Gymraeg eu cytundebau neu'u trefniadau.
- Cwynion – monitro nifer a natur y cwynion yn ymwneud â gwasanaeth Cymraeg y Cwmni. Caiff cwynion eu trin yn unol â gweithdrefn gwyno'r Cwmni.
- Cyflawni gwasanaeth - fe ellir cynnal arolygon barn yn gyfnodol, yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael i brofi barn y cyhoedd a'r cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith ynglŷn ag ystod o wasanaethau a gweithgareddau yr ymgymerir â nhw gan y Cwmni.



## 5.9 Adolygu a diwygio'r cynllun

Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd iddo ddod i rym.

Hefyd, o bryd i'w gilydd, efallai y bydd arnom angen adolygu'r cynllun hwn neu gynnig gwelliannau i'r cynllun hwn oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau neu i'r amgylchiadau rydym yn cynnal y swyddogaethau hynny ynddynt neu am unrhyw reswm arall. Ni wneir newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

## 5.10 Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella

Gallwch gysylltu â ni drwy'n gwefan, drwy anfon e-bost atom ([customercare@hdcymru.co.uk](mailto:customercare@hdcymru.co.uk)) neu os yw'n amgenach gennych, drwy ysgrifennu atom yn y cyfeiriad a ganlyn:

Hafren Dyfrdwy  
PO Box 507  
Darlington  
DL1 9XF

## 5.11 Cyhoeddi Gwybodaeth

5.11.1 Bydd y Cwmni'n cyhoeddi gwybodaeth fydd yn cymharu perfformiad yn erbyn safonau a thargedau a amlinellir yn y Cynllun.

5.11.2 Bydd y Cwmni hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n cynnwys y canlynol:

- Canran yr ymatebion i ohebiaeth yn y Gymraeg a gafwyd o fewn terfynau amser penodedig;
- Canran y cyhoeddiadau priodol a gyhoeddwyd yn ddwyieithog;
- Canran y siaradwyr Cymraeg mewn swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg wedi'i nodi.

5.11.3 Os na chaiff safonau a gyhoeddwyd eu cyrraedd, fe fydd y Cwmni'n egluro'r rheswm a pha gamau y mae'r Cwmni'n eu cymryd i unioni'r sefyllfa.

## 6. CYHOEDDUSRWYDD

6.1 Bydd y Cwmni'n rhoi cyhoeddusrwydd i'w Gynllun Iaith Gymraeg i'r cyhoedd ac i'w weithwyr a'i asiantiaid/gontractwyr ar sail gychwynnol ac yn barhaus. Bydd yn sicrhau bod pobl sy'n delio â'r Cwmni yn ymwybodol o'r Cynllun a'i gynnwys a sut maent yn gallu delio ag ef yn Gymraeg. Bydd y Cwmni'n hysbysu'r cyhoedd am ba wasanaethau

sydd ar gael yn y Gymraeg a lle a pha bryd y maent neu y byddant ar gael.

Caiff y dulliau canlynol o roi cyhoedduswydd eu defnyddio:

- Hysbysiadau mewn swyddfeydd cyhoeddus, derbynfeydd, ac yn y blaen;
- Cyhoeddi taflen sy'n rhoi manylion am ymrwymiad a gwasanaethau'r Cwmni o ran y Gymraeg;
- Datganiadau i'r wasg;
- Eitemau mewn amrywiol gyhoeddiadau sydd gan y Cwmni;
- Cylchlythyru gwybodaeth a chanllawiau i weithwyr;
- Dosbarthu copïau o'r Cynllun i asiantiaid/contractwyr y Cwmni;
- Dosbarthu copïau o'r Cynllun i gyrff eraill sydd â diddordeb;
- Gwefan y Cwmni.

## Atodiad A – Prif dargedau ar gyfer cyflawni'r Cynllun

<b>Targed</b>	<b>Dyddiad cwblhau</b>
<b>Polisiâu a mentrau newydd</b>	
Gwneir aelodau'r staff ac eraill sy'n gysylltiedig â llunio a gweithredu polisiâu a mentrau newydd yn ymwybodol o ofynion y cynllun. Bydd canllawiau a chyfarwyddiadau'n cael eu hailgyhoeddi.	<b>2 fis ar ôl i'r cynllun gael ei gymeradwyo</b>
<b>Gohebiaeth ysgrifenedig</b>	
Diweddarau'r gronfa ddata o bersonau a sefydliadau sy'n dymuno gohebu neu ddelio â'r cwmni yn Gymraeg.	<b>6 mis ar ôl i'r cynllun gael ei gymeradwyo</b>
<b>Cyfathrebu ar y ffôn</b>	
Monitro nifer y cwsmeriaid sy'n cysylltu â'r cwmni ar y ffôn yn Gymraeg.	<b>Parhaus</b>
<b>Cyfarfodydd cyhoeddus</b>	
Cynhyrchu canllawiau i staff sy'n trefnu ac yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus.	<b>2 fis ar ôl i'r cynllun gael ei gymeradwyo</b>
<b>Hunaniaeth gorfforaethol</b>	
Ailgyhoeddi canllawiau ar ddefnyddio hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog i staff, dylunwyr ac eraill sy'n atgynhyrchu delwedd gorfforaethol y Cwmni.	<b>4 mis ar ôl i'r cynllun gael ei gymeradwyo</b>
<b>Arwyddion</b>	
Bydd datganiadau cyhoeddus yn yr ardal y mae'r Cwmni'n gyfrifol amdani yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn ddwyieithog.	<b>12 mis ar ôl i'r cynllun gael ei gymeradwyo</b>
Cynnal archwiliad o arwyddion mewnol sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd.	<b>6 mis ar ôl i'r cynllun gael ei gymeradwyo</b>
<b>Gwefan</b>	
Monitro nifer y cwsmeriaid sy'n defnyddio fersiwn Gymraeg y wefan.	<b>Parhaus</b>
Gweithio â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar farchnata fersiwn Gymraeg y wefan.	<b>2 mis ar ôl i'r cynllun gael ei gymeradwyo</b>
<b>Staffio</b>	
Nodi gweithleoedd a swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n fanteisiol.	<b>4 mis ar ôl i'r cynllun gael ei gymeradwyo</b>
Monitro nifer y siaradwyr Cymraeg/y dysgwyr Cymraeg.	<b>Parhaus</b>
<b>Dysgu Cymraeg</b>	
Nodi staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg.	<b>2 mis ar ôl i'r cynllun gael ei gymeradwyo</b>
Datblygu rhaglen hyfforddi Gymraeg. Ystyried ffyrdd o gydweithredu â sefydliadau eraill yng ngogledd-ddwyrain Cymru.	<b>6 mis ar ôl i'r cynllun gael ei gymeradwyo</b>
<b>Recriwtio</b>	

Creu cysylltiadau ag ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd i annog siaradwyr Cymraeg i ymgeisio am swyddi yn y cwmni.	<b>Parhaus</b>
<b>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</b>	
Gofalir am yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg wrth inni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau TG&Ch.	<b>Parhaus</b>
<b>Trefniadau gweinyddol</b>	
Bydd Panel yr Iaith Gymraeg yn cynghori rheolwyr ar y camau gofynnol i weithredu'r cynllun.	<b>Bob 6 mis</b>
<b>Gwasanaethau ar ran y Cwmni gan bartïon eraill</b>	
Ailgyhoeddi canllawiau ar y gweithdrefnau i'w dilyn pan ddarperir gwasanaethau ar ran y cwmni gan bartïon eraill.	<b>4 mis ar ôl i'r cynllun gael ei gymeradwyo</b>
<b>Monitro</b>	
Cyflwyno adroddiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch sut rydym yn cydymffurfio â'r cynllun.	<b>Blynnyddol</b>
<b>Adolygu a diwygio'r cynllun</b>	
Adolygu'r cynllun	<b>2014</b>
<b>Cyhoeddusrwydd</b>	
Bydd y cwmni'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun drwy amrywiol ddulliau, fel a nodir yn adran 6.1.	<b>Parhaus</b>